# <u>Cofnodion</u> Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 01af o Fedi 2021**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng J Pierce, a'r Cyng D W Jones
2. <u>Ymddiheuriadau</u> Cyng B Jones, Cyng D Jones-Morris a Cyng M Lynch
3. Cod Ymddygiad
   Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

   Dim
4. <u>Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30</u>-06-2021

   Cyng D W Jones yn cynnig a'r Cyng J Pierce yn eilio eu bod yn gofnodion cywir
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   - Logo Angen symud ymlaen os ydym am gael lansiad yn yr Hydref Cyng L A James am gysylltu nol hefo'r dylunydd
   - Hosbis Dewi Sant – Adroddodd yn Clerc iddo fod wedi cyflwyno y cais yn yr IBC olaf ond erbyn sylweddoli ddim cais am nawdd gan y Cyngor oedd o dan sylw ond edrych tuag at sefydlu rhwydwaith o 'gyfeillion' unigol i godi arian. Cytunwyd i ddosbarthu'r llythyr rhwng yr aelodau a'i roi i fyny ar dudalen Fb y Cyngor
6. <u>Adroddiad Ariannol</u>
   - 'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu'n electronig hefo'r aelodau ag yn dangos fod bellach £57,033.24 yn y cyfrif cyfredol yn sgil derbyn ail ran y praesept. Mae £35,038.51 yn y cyfri Cadw Busnes. Pwysleisiodd ar yr angen i ddatblygu y cyllun busnes mor fuan a phosib Trafodwyd hefyd yr angen i gael ffigyrau 'costau ychwanegol' y Ganolfan Newydd gan Gwynedd
   - Archwilwyr Allannol - Y Swyddfa Archwylio Cymru wedi bod mewn cyswllt yn holi am eglurhad am 4 peth; cyn dychwelyd yn ymddiheuro mae dim ond un eglurhad oedd ei angen. Clerc wedi ymateb ag ymddengys fod hynny yn dderbyniol ond heb dderbyn dim yn cadarnhau hynny eto
   - Taliadau angen sylw – Argymell i'r Cyngor Llawn fod y Clerc yn talu'r cyfan
     - D W Lewis Torri gwair Gorffennaf £ 685.00
     - HMRC Awst £ 150.00
     - Cyflog Awst £ 599.84
     - Trydanwr Diffib Pentir £ 206.56
     - ROSPA £ 82.20
     - Delwedd £ 70.85
   - Talia di mewn
     - Tal mlaen llaw am gladdedigaeth cwpwl £400.00
     - Tal agor bedd J P Turner £200.00
7. Ceisiadau Nawdd
   Cais Llais Ogwan wedi ei dderbyn yn gynar fel arfer ond mantolen 2019-20 dderbynwyd – Disgwyl am fantolen Hyd 20 i Hyd 21 cyn ystyried
8. Prosiectau
   - Prosiect Ysgol Y Faenol Mae yna bryderon ynglyn a Gwaith allannol i flaen y ganolfan ble oedd darn eitha eang o laswellt i fod ond bellach rhimyn eitha main sydd yna a tharmac
     **Hanfodol ein bod yn cyfarfod ag uwch swyddogion eiddo Gwynedd oedd yn y trafodaethau cychwynnol**
     **Clerc i drefnu**
     **Angen hefyd i Gamlins gysylltu a Gwynedd i ddatgan ein anfodlonrwydd ynglyn a'r ffordd mae nhw yn trefnu y brydles**
     **Clerc i drefnu**
   - Logo Newydd Eisioes wedi ei drafod dan amterion yn codi

- Septic Tanc Glasinfryn  Fawr ddim wedi digwydd yn ystod Awst yn bennaf oherwydd i Dwr Cymru son eu bod yn ceisio darganfod perchennog y trac. Gorchwyl mae sawl un wedi dod ar ei thraws ond yn cyrraedd unman.
  **Clerc i holi gan mae tanddaearol fyddai eu archwyliad oes angen caniatad arnynt i archwylio eu bibelli eu hunain**

9. <u>I'w trafod hefyd</u>

- Clerc wedi derbyn e-bost gan gymydog y Cae chwarae yn Caerhun yn cwyno am y sbwriel oedd yn chwythu ag yn o lei honiad yn cael eu chwythu gan ein Contractwr i'w wrych
  **Clerc i holi am osod bina chostau gwagio i Gwynedd**
- Asesu Risg  Dim cyfarfod wedi bod ers ymholiad yn y Cyngor LLawn am i aelodau edrych drwy'r gofrestr a chynnig elfennau i leihau y risgiau oedd wedi eu adnabod
- Cynllun Busnas  Angen hwyluso cyfarfod